***DIOGELU PLANT YN YSGOLION GWYNEDD***

***SAFEGUARDING CHILDREN IN GWYNEDD SCHOOLS***

**Cynnwys**


A. Cyflwyniad 3
B. Polisi Amddiffyn Plant 5
C. Cyfrifoldebau'r Person Diogelu Dynodedig (PDD) 12
Ch. Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu 15
D. Diffiniadau a dangosyddion cam-drin plant 16
Dd. Cam-drin ymddiriedaeth 22
E. Cysylltiadau Awdurdod Lleol 23


**Contents**


A. Introduction 23
B. Model Policy 24
C. Responsibilities of the Designated Safeguarding Person (DSP) 31
D. Responsibilities of governing bodies 34
E. Definitions and indicators of child abuse 35
F. Abuse of Trust 41
G. Your Local Authority contacts are: 42

# Cyflwyniad

Mae'r polisi diwygiedig hwn yn cynnwys polisi diogelu ac amddiffyn plant enghreifftiol ar gyfer ysgolion, yn ogystal â gwybodaeth gyfeirio ychwanegol fel atodiadau.

Mae tudalennau 5 i 15 yn cynnwys polisi diogelu ac amddiffyn plant enghreifftiol ac mae tudalennau 16 i 32 yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol; i'w bersonoli a'i fabwysiadu gan gyrff llywodraethu i'w ddefnyddio gan bob ysgol. Cyfunwyd y dogfennau hyn er mwyn hwyluso defnydd.

Mae athrawon a staff nad ydynt yn addysgu yn ysgolion Gwynedd yn cydnabod eu dyletswyddau cyfreithiol o dan ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, A28 o Ddeddf Plant 2004, A175 o Ddeddf Addysg 2002 a Chadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020, ac yn cymryd eu cyfrifoldebau i amddiffyn a diogelu'r holl blant.

Mae **rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn rhoi dyletswydd ar *'bartneriaid perthnasol' a'r tîm troseddau ieuenctid perthnasol i roi gwybod i awdurdod lleol am blentyn mewn perygl mewn amgylchiadau penodol, ac i 'bartneriaid penodol' roi gwybod i awdurdod lleol am oedolyn mewn perygl mewn amgylchiadau penodol.* Mae **adran 28 o Ddeddf Plant 2004** yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u hasiantaethau partner i *"ddiogelu a hyrwyddo lles plant".* Yn ychwanegol, mae **adran 175 o Ddeddf Addysg 2002** yn gofyn i awdurdodau lleol *wneud "trefniadau ar gyfer arfer eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion. Dylai ysgolion ddarparu amgylchedd diogel a chadarn i blant a phobl ifanc, a'u haddysgu am aros yn ddiogel a sut i ddweud eu dweud os oes ganddynt bryderon".*

Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod gwaith amddiffyn plant effeithiol yn gofyn bod gweithdrefnau cryf, cadarn a diogel ar waith, yn ogystal â chydweithio rhyngasiantaethol da a gweithlu sy'n gymwys ac yn hyderus wrth ymateb i sefyllfaoedd.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn darparu'r sail ar gyfer arferion diogelu da yn ysgolion Gwynedd . Bydd y polisi'n cael ei adolygu bob blwyddyn, neu wrth i newidiadau mewn deddfwriaeth allweddol ddod i'r amlwg.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 adran 7, Nodiadau Arweiniol 5 a 6 - ymdrin ag achosion unigol. Mae hefyd yn unol â gweithdrefnau cenedlaethol perthnasol eraill ac yn adlewyrchu'r hyn y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei ystyried fel arfer diogel a phroffesiynol yn y cyd-destun hwn. Mae'n rhaid ystyried amddiffyn plant o fewn cyfrifoldebau "diogelu" ehangach gweithwyr proffesiynol, sy'n cynnwys dyletswydd i gydweithredu o dan Ddeddf Plant 2004 yn ogystal â'r ddyletswydd i adrodd am blant ac oedolion sydd 'mewn perygl' o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gan bob ysgol a lleoliad addysgol arall yng Ngwynedd aelod dynodedig o staff â chyfrifoldeb am gydlynu camau gweithredu ar ddiogelu ac amddiffyn plant. Mae'r person hwn hefyd yn darparu arbenigedd a chyngor i'r holl staff. Gelwir y person hwn yn Berson Diogelu Dynodedig (PDD) ar gyfer Amddiffyn Plant a dylai'r holl staff, gwirfoddolwyr, disgyblion, rhieni a gofalwyr ei adnabod yn ôl ei enw a'i wedd. Dylai'r holl leoliadau ddefnyddio taflenni gwybodaeth, posteri, lluniau a dyddiaduron ysgol i hyrwyddo'r wybodaeth ddiogelu hon i staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr.

Mae gan staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu rôl hanfodol i'w chwarae wrth nodi, cofnodi ac adrodd am ddangosyddion cam-drin neu esgeulustod posib i'r Person Diogelu Dynodedig (PDD). Yna bydd y PDD yn gwneud adroddiad ( cyfeirio) ac yn cysylltu â'r Gwasanaethau Plant Gwynedd( CyfeiriadauPlant@gwynedd.llyw.cymru).

**B.**

# *Polisi Amddiffyn Plant*

## *YSGOL Y FAENOL*

***Dyddiad Cymeradwyo:*** *25.9.24*
***Dyddiad Adolygu:*** *25.9.25*

Llofnodwyd
Cadeirydd Cyngor yr Ysgol ar ran y disgyblion:

Person Dynodedig Ddiogelu: Joanna Thomas

Llywodraethwr Dynodedig Diogelu: Anest Frazer

Pennaeth: Joanna Thomas

## 1 Cyflwyniad

Rydym yn cydnabod yn llwyr y cyfraniad mae'r ysgol yn ei wneud i amddiffyn plant. Mae tair prif elfen i'n polisi:

- atal drwy'r gefnogaeth addysgu a bugeiliol a cynigir i ddisgyblion
- gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu achosion posib o gam-drin. Oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa ddelfrydol i weld arwyddion allanol o gam-drin,
- rhoi cefnogaeth i ddisgyblion sydd efallai wedi'u cam-drin yn y gorffennol.

Mae ein polisi yn berthnasol i **holl** staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr yr ysgol.

Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi'n flynyddol ac rydym yn ymrwymedig i ddilyn unrhyw arweiniad newydd.

## 2. DATGANIAD DIOGELU

Mae llywodraethwyr a staff yr ysgol yn gwbl ymroddedig i lynu wrth adran 175 Deddf Addysg 2002, sy'n gofyn bod trefniadau ar waith gan Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir er mwyn iddynt arfer eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r Corff Llywodraethu yn ymateb i'r amcan cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy:

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- nodi lle ceir pryderon lles plant a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â hwy, lle y bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill;
- sicrhau y gwrandewir ar blant os ydynt yn mynegi pryderon; ac
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwydnwch plant drwy'r cwricwlwm.

Mae'r Corff Llywodraethu'n cydnabod, er mwyn cyflawni'r amcan, fod angen system wedi'u dylunio i:-

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hybu arfer diogel a herio arfer gwael ac anniogel;
- nodi digwyddiadau lle mae sail i bryderu am les plentyn, a dechrau neu gymryd camau gweithredu priodol i'w gadw'n ddiogel; a
- chyfrannu at y gwaith partneriaeth effeithiol rhwng yr holl rai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Bydd llywodraethwyr a staff yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd a chydag asiantaethau eraill i gyflawni'r amcan uchod.

Mae iechyd, diogelwch a lles yr holl blant o'r pwys mwyaf. Mae rhieni'n anfon eu plant i'r ysgol bob dydd gan ddisgwyl y bydd yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel lle gall y plant ffynnu. Mae'r Corff Llywodraethu a staff yr ysgol felly'n gwneud pob ymdrech i sicrhau y gwireddir y disgwyliad hwn. Er mwyn gwneud hyn, a chydnabod cwmpas diogelu, rhoddwyd amrywiaeth eang o fesurau a pholisïau ar waith, gan gynnwys mabwysiadu Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Rydym, fel ysgol, yn cydnabod gwerth gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal er mwyn diogelu plant a hyrwyddo'u lles. Rydym yn ymroddedig i weithio ar y cyd â theuluoedd a gwasanaethau ymyrryd yn gynnar. Mae'n hanfodol bod cyfathrebu rheolaidd â theuluoedd yn cael ei gynnal er mwyn nodi, mor gynnar â phosib, pryd y gall gwasanaethau eraill gynnig cefnogaeth. Bydd y Corff Llywodraethu a staff yr ysgol yn gweithio gyda theuluoedd i wneud atgyfeiriadau priodol ac amserol i wasanaethau ymyrryd yn gynnar.

**3. Ataliaeth**

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a chyfathrebu ag oedolyn y gall plentyn ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion. Yn Ysgol Y Faenol rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau diogelu i atal dirywiad mewn iechyd a datblygiad disgyblion, a sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Dyma pam rydym yn sicrhau bod diogelu'n rhan o'n holl bolisïau a gweithdrefnau ysgol.

Hefyd, bydd yr ysgol yn:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad a bod rhywun yno i wrando arnynt
- sicrhau bod y plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu'n cael anhawster
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ABCh yn y cwricwlwm sy'n rhoi cyfle i blant gael y sgiliau mae eu hangen arnynt i fod yn ddiogel rhag cam-drin a gwybod at bwy i droi am help
- cynnwys deunyddiau yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu ymagweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd oedolion, yn arbennig o ran sgiliau gofal plant a magu plant.

**4. Cyfrinachedd**

Mae angen deall materion cyfrinachedd os yw plentyn yn datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei gam-drin. Efallai bydd plentyn yn teimlo'n ddigon hyderus i ddweud rhywbeth yn gyfrinachol wrth aelod o staff os yw'n teimlo na fydd yr wybodaeth honno'n cael ei datgelu i unrhyw un arall. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol dynodedig pan fydd plentyn yn dioddef niwed.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn ymdrin â hyn yn sensitif ac yn esbonio i'r plentyn bod yn rhaid iddo ddweud wrth y bobl briodol sy'n medru helpu, ond y byddant yn dweud wrth y rhai y mae angen iddynt wybod yn unig, er mwyn iddynt allu helpu. Dylent dawelu meddwl y plentyn a dweud wrtho na fydd yr ysgol yn dod i wybod am ei sefyllfa.

Byddwch yn ymwybodol y gall fod wedi cymryd cryn dipyn o ddewrder ar ran y plentyn i ddatgelu'r wybodaeth, a'i fod hefyd yn profi emosiynau anghyson â'i gilydd sy'n cynnwys teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r sawl sy'n cam-drin yn rhywun sy'n agos ato) a loes.

Cofiwch gyfrifoldeb bugeiliol y gwasanaeth addysg. Sicrhewch mai'r rheini â chysylltiad proffesiynol yn unig, e.e. y Person Diogelu Dynodedig a'r Pennaeth, sydd â mynediad at y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall dylid eu cadw ar glo'n ddiogel ac ar wahân i brif ffeil y plentyn, neu os defnyddir systemau electronig megis 'My Concern', dylid sicrhau bod cyfyngiadau priodol ar waith i sicrhau cyfrinachedd.

**5. Gweithdrefnau**

**Dylid dilyn y rhain os bydd datgeliad/pryder ynghylch diogelu neu amddiffyn plant**

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru, y mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn eu cefnogi. Bydd yr ysgol yn:

- Sicrhau bod ganddi Berson Diogelu Dynodedig (PDD) sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol.
- Cydnabod rôl y PDD ac yn trefnu cefnogaeth a hyfforddiant ar lefelau uwch yn unol â'i lefel o gyfrifoldeb.
- Sicrhau bod pob aelod o staff a llywodraethwr yn gwybod:
    - Enw'r PDD a'i rôl, ac enw'r llywodraethwyr dynodedig dros ddiogelu ac amddiffyn plant.
    - Bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros adrodd am bryderon diogelu ac amddiffyn plant drwy ddefnyddio'r sianeli cywir, ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt o fewn Rheoliadau Diogelu Cymru.

    - Sut i ymdrin â'r pryderon hyn pan na fydd y PDD ar gael.
- Sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus o arwyddion cam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a fydd efallai yn sôn am gam-drin.
- Sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o gyfrifoldeb yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant drwy bennu ei goblygiadau ym mhrosbectws yr ysgol.
- Sicrhau bod yr holl staff yn cyflawni unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant y cytunwyd arno gan yr awdurdod lleol sy'n berthnasol i'w rôl.
- Darparu sesiwn friffio diogelu ac amddiffyn plant o leiaf unwaith y tymor i'r holl staff fel eu bod yn gwybod:
    - Eu cyfrifoldeb personol.
    - Y gweithdrefnau lleol cytunedig.
    - Yr angen i fod yn wyliadwrus wrth nodi achosion o gam-drin.
    - Sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu ei fod yn cael ei gam-drin.
    - Unrhyw faterion amddiffyn plant newydd neu newid i weithdrefnau.
- Hysbysu gwasanaethau cymdeithasol lleol os:
    - Caiff disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant ei wahardd naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol.
    - Os yw disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod yn dilyn y penwythnos).
- Gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl y galw gyda'u hymholiadau ynghylch materion diogelu ac amddiffyn plant.
- Mynychu cyfarfodydd strategaeth, cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol/adolygu a grwpiau craidd (gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau).
- Cyfrannu at gynlluniau diogelwch, gofal a chefnogaeth plant a bod yn gyfrifol am gamau gweithredu'r ysgol fel rhan o'r cynlluniau hyn.
- Cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (gan nodi dyddiad, digwyddiad a cham gweithredu), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith.
- Sicrhau y cedwir yr holl gofnodion yn ddiogel dan glo.
- Glynu wrth y gweithdrefnau a nodwyd yn arweiniad Llywodraeth Cymru, 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' 2020 ac unrhyw ddiwygiadau i'r arweiniad hwnnw.
- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol diogel yn cael eu dilyn a bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddefnyddio.
- Dynodi llywodraethwr ar gyfer materion diogelu ac amddiffyn plant a fydd yn goruchwylio polisi ac arferion diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol.

## 6. Llunio adroddiad/Atgyfeirio at y Gwasanaethau Plant

Mae'n rhaid adrodd am yr holl faterion diogelu ac amddiffyn plant dros y ffôn yn y man cyntaf (01758704455). Bydd eich adroddiad ffôn yn cael ei gofnodi o fewn 24 awr ar ffurflen Adroddiad/gyfeirio , a chaiff ei chyflwyno drwy e-bost i'r tîm Cyfeiriadau Plant CyfeiriadauPlant@gwynedd.llyw.cymru.

Ar gyfer pryderon sy'n ymwneud â phlentyn sydd efallai 'mewn perygl' neu y mae angen gofal a chefnogaeth arno, gallwch gysylltu â'r tîm PCU cyn gwneud galwad ffôn ymlaen llaw. Caiff yr holl adroddiadau/gyfeiriadau eu sgrinio a gallant gael eu dyrannu i'w hasesu gan Weithiwr Cymdeithasol.

Ar gyfer pryderon sy'n codi y tu allan i oriau swyddfa, e.e. nosweithiau rhieni, teithiau ysgol etc., bydd angen i chi roi'ch adroddiad dros y ffôn i'r Tîm Dyletswydd Brys (EDT) (01248 353551) ar - caiff eich ffurflen gyfeirio ysgrifenedig ei chyflwyno i'r tîm Cyfeiriadau Plant o fewn 24 awr. Os na fydd gweithiwr cymdeithasol ar gael ar y rhif hwn, gallwch drosglwyddo'ch pryder amddiffyn plant yn uniongyrchol i'r heddlu ar 999. Ni ddylid aros tan y diwrnod gweithio nesaf cyn cyfeirio mater amddiffyn plant.

## 7. Diffiniadau cam-drin plant, diogelu plant mewn amgylchiadau penodol

Mae diffiniadau camdriniaeth ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru ond maent hefyd ar gael i gyfeirio'n hawdd atynt yn yr atodiadau, 'Diffiniadau a Dangosyddion Cam-drin Plant'.

Mae ein hysgol yn cydnabod y gall rhai plant fod yn fwy agored i niwed ac mae gennym ddyletswyddau a chyfrifoldebau amddiffyn plant penodol mewn perthynas â'r rhain. Amlinellir yr amgylchiadau penodol yn fanylach ym Mhennod 4 canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru.

## 8. Ymdrin â datgeliad gan blentyn

### 8.1 Derbyn

- Gwrandewch yn astud ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, heb ddangos sioc nac anghrediniaeth. Derbyniwch yr hyn a sydd yn cael ei ddweud gan y plentyn. Efallai bydd y plentyn sy'n datgelu'r wybodaeth yn blentyn rydych chi'n gwybod nad yw bob amser yn dweud y gwir. Fodd bynnag, peidiwch â gadael i wybodaeth flaenorol am y person hwn olygu eich bod yn rhagfarnu neu'n annilysu ei honiad.
- Peidiwch â cheisio ymchwilio i'r honiad. Eich dyletswydd chi yw gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo'r wybodaeth honno.

### 8.2 Cysuro

- Rhowch ddigon o gysur i'r plentyn. Byddwch yn onest bob tro a pheidiwch â gwneud addewidion ni allwch chi eu cadw, er enghraifft: "Arhosa i gyda ti", neu "Bydd popeth yn iawn nawr".
- Os yw disgybl yn cyfeirio at deimlo'n euog, ceisiwch leddfu'r teimlad hwn. Er enghraifft, gallech ddweud: "Nid ti sydd ar fai. Nid dy fai di yw hwn."
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd. Bydd gennych ddyletswydd i drosglwyddo'r wybodaeth a bydd angen i'r plentyn wybod hyn.

### 8.3 Ymateb

- Gallwch ofyn cwestiynau - efallai y bydd rhaid i chi mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid cyfle yw hwn i holi'r plentyn yn fanwl a mentro i faes cwestiynu manwl a hirfaith. Y cyfan mae angen i chi ei wybod yw pwyntiau amlycaf honiad y plentyn.  Rhaid i unrhyw gwestiynau fod yn agored ac ni ddylent fod yn arweiniol.
- Peidiwch â beirniadu'r tramgwyddwr honedig oherwydd efallai bydd gan y plentyn gysylltiad emosiynol â'r person hwn o hyd.
- Peidiwch â gofyn i'r plentyn ailadrodd ei honiad i aelod arall o staff. Os gofynnir iddo'i ailadrodd, gall deimlo nad yw'n cael ei gredu a/neu efallai bydd ei atgof o'r hyn a ddigwyddodd yn newid.

### 8.4 Cofnodi

- Cymerwch nodiadau cyn gynted ag y mae'n ymarferol i chi wneud hynny. Cofnodwch y geiriau gwirioneddol a ddywedwyd gan y plentyn – peidiwch â'u trosi i'r ffordd mae oedolion yn siarad neu geisio gwneud synnwyr o strwythur yr hyn a ddywedwyd. Peidiwch â digio ag unrhyw iaith neu eiriau sarhaus a ddefnyddir i ddisgrifio'r camdriniaeth.
- Sicrhewch fod eich enw, yr amser a'r dyddiad ar eich nodiadau a pheidiwch â'u dinistrio rhag ofn y bydd eu hangen yn y llys.
- Mae (enw'r ysgol)yn defnyddio (enw'r feddalwedd e.e. My Concern) i gofnodi materion a phryderon diogelu ac amddiffyn plant.
- Os yw'n bosib, tynnwch lun diagram i ddangos lleoliad unrhyw gleisiau ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddillad i wneud hyn.
- Cofnodwch ddatganiadau a phethau y gallwch arsylwi arnynt, yn hytrach na'ch dehongliadau neu'ch rhagdybiaethau.

### 8.5 Camau Olaf

- Ar ôl i chi ddilyn y canllawiau uchod, rhowch yr wybodaeth i'r PDD yn syth. Wedyn, bydd nifer o opsiynau ar gael iddo gan gynnwys cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol lleol i ofyn iddynt beth ddylai ddigwydd nesaf.

## 9. Rheoli honiadau yn erbyn oedolion sy'n gweithio gyda phlant

Os gwneir honiad diogelu/amddiffyn plant yn erbyn aelod o staff, mae'n rhaid i'r person sy'n derbyn yr honiad hwnnw drosglwyddo manylion y mater hwnnw ar unwaith i'r Pennaeth neu, yn ei absenoldeb, aelod o staff â chyfrifoldebau'r Pennaeth. Yna bydd y Pennaeth yn ffonio CyfeiriadauPlant@gwynedd.llyw.cymru (01758704455) i drafod y mater.
Yn dilyn y drafodaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol bydd angen ir Pennaeth gysylltu â Gwern ap Rhisiart Swyddog Addysg ( 07837706517) i drafod y camau nesaf yn unol â threfniadau lleol.

Os yw honiad diogelu/amddiffyn plant posib yn cael ei wneud yn erbyn y Pennaeth, mae'n rhaid i'r aelod y staff sy'n derbyn yr honiad hwnnw gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr a hefyd y Uwch Swyddog Diogelu Addysg ar 01758 704044| 07837706517. Os yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn derbyn yr adroddiad, bydd rhaid iddyn nhw gysylltu â Swyddog Diogelu Addysg yr 01758 704044| 07837706517.

### 9.1 Camddefnyddio Swydd Gyfrifol

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i holl staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda, neu at blant, yn annerbyniol. Yn benodol, o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed (er enghraifft, athro/athrawes, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol gyda phlentyn dan 18 oed lle mae'r person mewn sefyllfa o ymddiriedaeth i'r plentyn, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y plentyn mewn addysg amser llawn ac mae'r person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

## 10. Cefnogi'r disgybl sydd mewn perygl

Mae cam-drin plentyn yn drychinebus i'r plentyn a gall hefyd arwain at ofid a phryder i staff sy'n ymwneud â'r mater. Rydym yn cydnabod y gall hyn effeithio'n fawr ar blant sydd mewn perygl, sy'n cael eu cam-drin neu'n dyst i drais. Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen gadarn, ddiogel a dibynadwy ym mywydau'r plant sydd mewn perygl. Er hynny, pan fyddant yn yr ysgol efallai y bydd eu hymddygiad yn heriol ac yn herfeiddiol neu efallai na fyddant yn cyfranogi. Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r disgybl drwy:

- Gymryd yr holl amheuon a datgeliadau fel rhai difrifol.
- Enwebu person cyswllt a fydd yn hysbysu pob parti sy'n gysylltiedig â'r mater ac yn bwynt cyswllt canolog. Lle bydd aelod o staff yn destun honiad a wnaed gan ddisgybl, caiff pobl gyswllt ar wahân eu henwebu i osgoi gwrthdaro o ran budd.
- Ymateb gyda chydymdeimlad i unrhyw gais gan ddisgyblion neu staff am amser i ymdrin â gofid neu bryder.
- Cynnal cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth angenrheidiol ag unigolion ac asiantaethau perthnasol yn unig.
- Cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder wedi ailgodi.
- Storio cofnodion yn ddiogel.
- Cynnig manylion llinellau cymorth, cwnsela neu lwybrau cefnogaeth allanol eraill
- Cydweithio'n llawn ag asiantaethau statudol perthnasol.
- Meithrin a chefnogi eu lles yn unol â'n strategaeth lles unigol.

**10.1** Mae cynnwys y cwricwlwm yn annog hunanbarch a hunangymhelliad fel a amlinellir ym Mhennod 2 canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru.

- Hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel.
- Rhoi ymdeimlad o werth i'r disgyblion.

**10.2** Bydd yr ysgol yn cefnogi strategaethau ymddygiad cadarnhaol â'r nod o gefnogi disgyblion diamddiffyn yn yr ysgol; rydym yn cydnabod bod rhai plant yn mabwysiadu ymddygiad difrïol ac mae'n rhaid gyfeirio 'r plant hyn fel y fod modd iddynt dderbyn cefnogaeth ac ymyriad priodol.

**10.3** Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod ymddygiad penodol yn annerbyniol ond ei fod ef/hi yn cael ei werthfawrogi/gwerthfawrogi ac nad ef/hi sydd ar fai am y cam-drin;

- Bydd holl aelodau'r staff yn cytuno ar ymagwedd gyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y drosedd dan sylw gan y plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad o hunan-werth y disgybl.
- Cydgysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r disgybl megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cefnogi Ymddygiad, y Gwasanaeth Lles Addysg a'r gwasanaeth eiriolaeth, yn ogystal â gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal.

**10.4** Pan fydd disgybl ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn gadael yr ysgol, yn ogystal â throsglwyddo gwybodaeth safonol i'r ysgol newydd, bydd y PDD yn cysylltu'n syth â PDD yr ysgol newydd i roi gwybod iddo fod y plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Bydd Cydlynydd y Cynllun Gofal a Chefnogaeth (Gweithiwr Cymdeithasol) yn rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol ac yn gofyn am gynhadledd amddiffyn plant er mwyn trosglwyddo o fewn 3 diwrnod. Mae'n rhaid i'r PDD rannu'r holl gofnodion diogelu ac amddiffyn plant sydd gan yr ysgol gyda'r PDD sy'n derbyn yr wybodaeth, yn unol â Chylchlythyr 10/2006 Llywodraeth Cymru.

**10.5 Ymyriad corfforol**

Mae gennym Bolisi Ymyriad Diogel (Grym Rhesymol) a gaiff ei adolygu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu ac mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ymyriad Diogel ac Effeithiol - Defnyddio Grym Rhesymol a Chwilio am Arfau 097/2013.

## 11. Adolygiad

Caiff y polisi ei adolygu a'i gadarnhau'n flynyddol mewn cyfarfod llawn o'r Corff Llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn a chofnodir hyn yn y cofnodion. I baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, bydd y Person Diogelu Dynodedig yn rhoi gwybodaeth i'r Corff Llywodraethu am y canlynol:

- Newidiadau i weithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant.
- Yr hyfforddiant a gyflawnwyd gan yr holl staff a llywodraethwyr yn y 12 mis blaenorol.
- Nifer y digwyddiadau Diogelu neu Amddiffyn Plant a gafwyd yn yr ysgol yn y deuddeng mis blaenorol (heb fanylion nac enwau).
- Ble a sut mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn ymddangos yn y cwricwlwm.
- Gwersi a ddysgwyd o achosion.

## 12. Cwynion

Mae gan yr ysgol Bolisi Delio â Chwynion ar waith sy'n seiliedig ar y model a gynhwysir yng nghylchlythyr 011/2012 Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau Cwynion ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru ac, yn ogystal, mae ganddo wybodaeth gwynion i blant fel y gall plant, staff a'r cyhoedd gyflwyno'u cwynion mewn perthynas â'r ysgol, gan gynnwys cwynion diogelu a phryderon ynghylch y ffaith na chymerwyd camau gweithredu diogelu.

# C. Cyfrifoldebau'r Person Diogelu Dynodedig (PDD)

1. Dylai pob ysgol nodi Person Diogelu Dynodedig (PDD) â chyfrifoldeb arweiniol am reoli materion ac achosion diogelu ac amddiffyn plant. Dylai'r PDD wybod sut i adnabod a nodi arwyddion cam-drin ac esgeulustod a gwybod pryd bydd yn briodol i adrodd am hyn i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol. Mae'r rôl yn ymwneud â darparu cyngor a chefnogaeth i staff eraill, gwneud adroddiadau a gweithio gydag asiantaethau eraill fel y bo'r angen. Nid rôl y PDD yw ymchwilio i honiadau, ond rhaid iddo hysbysu'r Pennaeth o'r holl faterion diogelu ac amddiffyn plant yn y sefydliad.

   Nid oes angen i'r PDD fod yn athro, ond rhaid iddo fod yn uwch-aelod o dîm arweinyddiaeth yr ysgol, a yn meddu ar statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, gan gynnwys neilltuo adnoddau i faterion diogelu ac amddiffyn plant, a lle y bo'n briodol, gyfarwyddo aelodau eraill o staff. Wrth ymdrin ag achosion unigol efallai y bydd angen cynnwys y Swyddog Lles Addysg neu ddilyn trefniadau cefnogi myfyrwyr eraill, fodd bynnag y maes gwaith hwn yw cyfrifoldeb y PDD o hyd.

   Dylai'r holl ysgolion sicrhau bod dirprwy ar gael i weithredu yn absenoldeb y PDD. Mewn ysgolion a drefnir ar safleoedd gwahanol neu â strwythurau rheoli gwahanol, dylai fod Person Diogelu Dynodedig ar gyfer pob rhan neu safle. Mewn sefydliadau mawr, neu'r rhai â nifer mawr o bryderon diogelu ac amddiffyn plant, efallai bydd angen nifer o ddirprwyon i ymdrin â'r cyfrifoldebau.

   Mae'n rhaid i'r ysgol wneud trefniadau hefyd i gael rhywun i gyflenwi yn lle'r PDD pan na fydd ar gael. Yn yr holl achosion, bydd dirprwy PDD ar gael ac efallai bydd gan ysgolion sy'n fwy dîm o staff sy'n gweithio gyda'i gilydd, y bydd disgwyl iddynt ddirprwyo ar ran y PDD pan fo angen.

   Y PDD fydd yn gyfrifol am arferion, polisi a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol, a'i ddatblygiad proffesiynol ei hun wrth weithio gydag asiantaethau eraill fel bo angen. Dylai'r Pennaeth sicrhau bod y PDD:

   - Yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol; dylai hyn gael ei ddiffinio'n glir yn nisgrifiad swydd deiliad y swydd.
   - Wedi cael hyfforddiant o lefel uwch gan gynnwys hyfforddiant PDD/Person Diogelu Dynodedig.
   - Yn cael mynediad at y gefnogaeth briodol sydd ei hangen i wneud y rôl.
   - Yn cael amser i fynychu cynadleddau amddiffyn plant a darparu adroddiadau a chyngor iddynt, yn ogystal â chyfarfodydd grwpiau craidd a rhyngasiantaeth eraill yn ôl y galw.
   - Yn cyfrannu at gamau gweithredu'r ysgol ac yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt yn ôl y cynllun cefnogi ac amddiffyn diogelwch neu ofal.

2. **Adroddiadau**

   Dylai'r PDD weithredu fel pwynt cyswllt a ffynhonnell gefnogaeth, cyngor ac arbenigedd yn yr ysgol wrth benderfynu a ddylid adrodd am honiad drwy gydgysylltu ag asiantaethau perthnasol.

   Mae'r PDD yn gyfrifol am adrodd am honiadau o gamdriniaeth honedig i'r asiantaethau archwilio perthnasol. Os yw'r rhain yn berthnasol i achosion o gam-drin honedig neu honiadau o gam-drin yn erbyn aelod o staff, y Pennaeth (neu Gadeirydd y Llywodraethwyr) sy'n gyfrifol, a nodir y broses yn nogfennau Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo ar gyfer Staff Ysgolion 002/2020) a Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (009/2014)

3. **Cadw Cofnodion**

   Cyfrifoldeb y PDD yw sicrhau y cedwir cofnodion ysgrifenedig manwl, cywir a chadarn am blant os oes pryderon ynghylch diogelu ac amddiffyn plant. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i gofnodion disgyblion. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, adroddiadau, cyfarfodydd, galwadau ffôn ac e-byst.

   Pan fydd plant yn gadael y sefydliad, dylai'r PDD sicrhau bod ei ffeil diogelu ac amddiffyn plant yn cael ei hanfon i'r ysgol newydd cyn gynted â phosib, ond dylid ei throsglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl.

**4. Cynyddu ymwybyddiaeth**

Mae'r Pennaeth/PDD yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gweld copïau o'r polisi diogelu ac amddiffyn plant. Mae hyn yn osgoi'r potensial o wrthdaro yn nes ymlaen drwy eu hysbysu am ofynion cyfreithiol yr ysgol a'r ffaith y gall fod angen adrodd am honiadau. Mae llawer o ysgolion yn cynnwys gwybodaeth am hyn yn y cyfarfodydd sefydlu i rieni newydd, yn eu prosbectws ac ar eu gwefan.

Mae'n arfer da i'r PDD ddarparu sesiwn friffio flynyddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ar unrhyw faterion diogelu ac amddiffyn plant newydd neu newidiadau mewn gweithdrefnau lleol/rhanbarthol/cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am eu cyfrifoldebau, a pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae llawer o ysgolion yn ei gweld hi'n ddefnyddiol i drafod diogelu ac amddiffyn plant yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth yn aros yn uchel.

Dylai'r Pennaeth/PDD gydgysylltu â'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant fel y gall y llywodraethwr dynodedig sôn wrth y Corff Llywodraethu am faterion diogelu. Ni ddylai adroddiadau i'r corff llywodraethu ymwneud ag achosion diogelu ac amddiffyn plant penodol, ond dylent adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer da i'r llywodraethwr dynodedig a'r PDD gyflwyno'r adroddiad gyda'i gilydd.

Dylai'r PDD sicrhau bod polisi amddiffyn plant yr ysgol yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n flynyddol, a gweithio gyda'r corff llywodraethu neu'r perchennog ynglŷn â hyn.

**5. Adolygu'r polisi**

Yn ogystal â pholisi'r ysgol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant, mae polisïau eraill sy'n berthnasol i ddiogelu, ac efallai bydd y PDD yn ymwneud â monitro effeithiolrwydd y rhain a pholisïau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn diogelu ei holl ddisgyblion. Mae polisïau perthnasol eraill yn cynnwys:

- Presenoldeb
- Ymddygiad
- Côd ymddygiad staff
- Gwrth-fwlio
- Gofal personol
- Recriwtio a dethol diogel
- E-ddiogelwch
- Ymyriad corfforol
- Cyfrinachedd
- Polisi defnydd priodol o TGCh a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhieni, disgyblion a staff

Gellir cael cefnogaeth ac arweiniad pellach ar rôl y PDD gan Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant - Addysg yr awdurdod lleol. Mae adnoddau ac arweiniad defnyddiol hefyd ar gael ar HWB.

**6. Diogelu ac amddiffyn plant a hyfforddiant amlasiantaeth**

Rôl y PDD yw gweithio gyda'r Pennaeth i sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn:

- Gallu cyrchu a deall polisi diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol, yn enwedig staff newydd neu ran-amser a gwirfoddolwyr, yn ogystal â staff arlwyo a glanhau.
- Cael hyfforddiant sefydlu a gloywi sy'n cynnwys diogelu ac amddiffyn plant, dealltwriaeth o faterion diogelu gan gynnwys achosion o niwed, cam-drin ac esgeulustod.
- Gallu adnabod arwyddion a dangosyddion niwed.
- Gwybod sut i ymateb yn effeithiol pan fydd ganddynt bryderon.
- Gwybod sut i ymateb yn briodol i ddatgeliad.
- Gwybod bod ganddo gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw bryderon yn syth wrth iddynt godi.

Dylai'r PDD gadw cofnodion o ddyddiadau'r hyfforddiant, manylion y darparwr a chofnod o bresenoldeb staff yn yr hyfforddiant, a dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i Swyddog Diogelu'r Awdurdod Lleol ar gyfer Addysg.

Dylai athrawon dderbyn hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant fel rhan o'r cwrs hyfforddi sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC), ond bydd angen atgyfnerthu hyn â mwy o hyfforddiant, neu hyfforddiant gloywi pan gânt eu penodi gyntaf. Mae'r Safonau SAC yn gyfres o ddatganiadau canlyniadau y mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant eu bodloni sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau a gofynion statudol eraill fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid i athrawon dan hyfforddiant allu cyflwyno tystiolaeth eu bod yn sefydlu amgylchedd dysgu pwrpasol i'r holl blant lle mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus. Dylai'r holl staff gael eu hatgoffa'n rheolaidd o Gôd Ymddygiad Cyngor y Gweithlu Addysg a'i berthnasedd i arferion diogelu.

Mae gofyn hefyd i athrawon dan hyfforddiant ddangos proffesiynoldeb i sicrhau bod eu perthnasoedd â dysgwyr yn cael eu meithrin ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, a chydnabod y bydd hyn yn helpu i fwyafu eu potensial dysgu. Disgwylir i athrawon dan hyfforddiant ddangos tystiolaeth o'r safon hon drwy allu dangos gwybodaeth am hawliau a hawliadau'r holl ddysgwyr ac ymwybyddiaeth ohonynt, fel y'u hamlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Dylai staff a llywodraethwyr eraill gael hyfforddiant pan gânt eu penodi gyntaf. Dylai'r holl staff nad oes ganddynt gyfrifoldeb dynodedig am ddiogelu/amddiffyn plant, gan gynnwys athrawon, fynychu hyfforddiant gloywi addas ar gyfnodau rheolaidd a phriodol wedi hyn, i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfoes.

Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am sicrhau bod gan staff y gallu a'r hyder i gyflawni eu cyfrifoldebau am ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Bydd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn gallu darparu cyngor ar isafswm y lefelau hyfforddiant gofynnol y mae eu hangen ar staff i sicrhau eu bod yn gallu cydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol.

Diben hyfforddiant aml - asiantaeth yw cyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gan gynnwys:

- Dealltwriaeth a rennir o'r tasgau, y prosesau, yr egwyddorion, a'r rolau a chyfrifoldebau a amlinellir mewn canllawiau cenedlaethol a threfniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo'u lles.
- Gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar lefel strategol ac achosion unigol.
- Gwell cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol gan gynnwys dealltwriaeth gyffredin o dermau allweddol, diffiniadau a throthwyau ar gyfer gweithredu.
- Perthnasoedd gwaith effeithiol gan gynnwys gallu i weithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaeth.
- Gwneud penderfyniadau cadarn yn seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesu trylwyr, dadansoddiad beirniadol a barn broffesiynol.

Dylai'r PDD gael hyfforddiant yn brydlon mewn gweithdrefnau rhyngasiantaeth sy'n ei alluogi i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, ac yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol iddo gyflawni ei gyfrifoldebau. Dylai hefyd gyflawni hyfforddiant gloywi i gadw ei wybodaeth a'i sgiliau'n gyfoes.

Dylai staff eraill dderbyn hyfforddiant pan gânt eu penodi gyntaf a chyflawni hyfforddiant gloywi addas i gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfoes.

## Ch. Cyfrifoldebau cyrff llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu'n atebol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn unol â'r arweiniad hwn, a monitro bod ysgolion yn cydymffurfio â nhw. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn unol ag arweiniad Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a pholisi'r awdurdod lleol.

Dylai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a pherchnogion ysgolion annibynnol sicrhau bod eu sefydliadau perthnasol yn:

- meddu ar ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant effeithiol sy'n:
    - Cydymffurfio ag arweiniad yr awdurdod lleol a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol/rhanbarthol.
    - Cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol (e.e. llety preswyl, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol, etc.)
    - Cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn.
    - Sicrhau eu bod ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais.
    - Cael eu darparu mewn fformat addas ar gyfer dealltwriaeth plant, yn enwedig lle mae ysgolion yn darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cyflawni ar staff a gwirfoddolwyr newydd a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau GDG perthnasol lle bo'n addas.
- Sicrhau bod y Pennaeth a phob aelod parhaol o staff a gwirfoddolwyr parhaol sy'n gweithio gyda phlant yn cyflawni'r hyfforddiant priodol fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol, a sicrhau bod hwn yn cael ei ddiweddaru'n gyson trwy hyfforddiant gloywi.
- Rhoi arweiniad clir i staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau tymor byr ac a fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ynglŷn â threfniadau'r ysgol o ran diogelu ac amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau.
- Sicrhau bod y corff llywodraethu'n adfer yn ddi-oed unrhyw ddiffygion neu wendidau sy'n ymwneud â threfniadau diogelu ac amddiffyn plant y tynnir ei sylw atynt, gyda chefnogaeth a chyngor Swyddog Diogelu Addysg yr awdurdod lleol.
- Sicrhau bod y PDD, y llywodraethwr dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn cyflawni hyfforddiant mewn gweithio rhyngasiantaeth a ddarperir gan BDGM, neu i safonau y cytunwyd arnynt gan BDGM a hyfforddiant gloywi i gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfoes, yn ogystal â hyfforddiant diogelu/amddiffyn plant sylfaenol.

**Llywodraethwr dynodedig**

Nodi llywodraethwyr dynodedig ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a fydd yn:

- gyfrifol am faterion diogelu ac amddiffyn plant
- sicrhau bod y corff llywodraethu'n adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn flynyddol
- Sicrhau bod y corff llywodraethu/perchennog yn cynnal adolygiad blynyddol o'i bolisïau a'i weithdrefnau diogelu a sut mae'r dyletswyddau uchod wedi cael eu cyflawni.

Er bod gan gyrff llywodraethu rôl wrth arfer eu swyddogaethau disgyblu o ran honiadau amddiffyn plant yn erbyn aelodau o staff, nid oes ganddynt rôl wrth ystyried achosion unigol yr ymchwilir iddynt dan drefniadau a nodir yn nogfen Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill (Cylchlythyr 009/2014 Llywodraeth Cymru)

Er mwyn i'r corff llywodraethu gael polisi effeithiol ar waith ac er mwyn i'r Llywodraethwr Dynodedig fod yn hyderus yn ei rôl, mae'n bwysig i holl aelodau cyrff llywodraethu gwblhau hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau a deall cyfrifoldebau diogelu ehangach.

# D. Diffiniadau a dangosyddion cam-drin plant

### Beth yw cam-drin plant?

Mae cam-drin ac esgeulustod yn ffyrdd o gam-drin plentyn. Mae plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso os yw rhywun yn achosi niwed sylweddol iddo neu'n methu i weithredu i atal niwed. Gall plant gael eu cam-drin mewn lleoliad teuluol, sefydliadol neu gymunedol, gan bobl maent yn eu hadnabod neu, yn anghyffredin, gan ddieithryn. Plentyn yw unrhyw un nad yw wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Ystyr "plant" felly yw "plant a phobl ifanc" drwy gydol y polisi. Nid yw'r ffaith bod plentyn wedi cyrraedd 16 oed a'i fod efallai yn byw yn annibynnol yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau neu amddiffyniad o dan Ddeddf Plant 1989.

Mewn deddfwriaeth, diffinnir niwed sylweddol fel cam-drin plentyn neu amharu ar ei iechyd a'i ddatblygiad, o'i gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan blentyn tebyg.

Dylai pawb:

- fod yn ymwybodol o ddangosyddion niwed, cam-drin neu esgeulustod;
- bod yn ymwybodol o'r bygythiad y gall yr un sydd yn ei camdrin fod i blant;
- rhannu eu pryderon er mwyn gallu casglu gwybodaeth i helpu i asesu anghenion ac amgylchiadau'r plentyn;
- gweithio gydag asiantaethau i gyfrannu at gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i ddiogelu a hybu lles y plentyn
- parhau i gefnogi'r plentyn a'i deulu.

### Dosbarthiadau o gam-drin

- Cam-drin corfforol
- Cam-drin rhywiol
- Cam-drin emosiynol
- Esgeulustod
- Cam-drin ariannol

## Cam-drin corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys bwrw, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu niwed corfforol arall i blentyn. Gall niwed corfforol ddigwydd pan fydd rhiant neu ofalwr yn esgus symptomau salwch, neu'n achosi salwch yn fwriadol, i blentyn yn ei ofal. Disgrifir y sefyllfa hon yn gyffredin gan ddefnyddio termau fel salwch ffug neu wedi'i achosi gan eraill.

### Dangosyddion cam-drin corfforol:

- cleisiau, marciau neu niweidiau heb esboniad, ar unrhyw ran o'r corff
- cleisiau amryfal - mewn clystyrau, yn aml ar ran uchaf y fraich, y tu allan i'r forddwyd
- llosgiadau sigarét
- marciau cnoi gan berson
- esgyrn wedi'u torri
- sgaldiadau â marciau sblash at i fyny
- llosgiadau amryfal gydag ymyl clir

### Newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd awgrymu cam-drin corfforol:

- ofn y bydd rhywun yn cysylltu â'r rhieni am esboniad
- ymddygiad ymosodol neu ffrwydradau colli tymer
- cilio'n ôl pan fydd rhywun yn mynd yn agos at y plentyn neu'n ei gyffwrdd
- amharodrwydd i newid dillad, er enghraifft mewn tywydd poeth
- iselder
- ymddygiad swil
- rhedeg i ffwrdd o gartref.

## Cam-drin rhywiol

Mae cam-drin rhywiol yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft trais neu gyfathrach rhywiol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddgar megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i'r dillad. Gall cam driniaeth hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant mewn edrych ar ddelweddau rhywiol, neu wrth eu cynhyrchu, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol neu baratoi plentyn ar gyfer cam-drin (gan gynnwys dros y we). Nid dynion yn unig sy'n gyfrifol am gam-drin rhywiol. Gall menywod gam-drin yn rhywiol hefyd, yn ogystal â phlant eraill.

**Dangosyddion cam-drin rhywiol:**

- poen neu gosi yn yr organau cenhedlu
- cleisiau neu waedu yn agos at yr organau cenhedlu
- clefyd a drosglwyddir yn rhywiol
- “ Discharge “neu haint rhywiol (STD)
- poenau bol
- anghysur wrth gerdded neu eistedd i lawr
- beichiogrwydd

**Mae newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd ddangos cam-drin rhywiol yn cynnwys:**

- newidiadau sydyn/heb esboniad mewn ymddygiad e.e. dod yn ymosodol neu'n swil
- Ofni bod ar ei ben ei hun gyda pherson penodol neu grŵp o bobl
- cael hunllefau
- rhedeg i ffwrdd o'r cartref, gwybodaeth rywiol sydd y tu hwnt i'w oed neu ei lefel ddatblygiadol
- darluniau neu iaith rywiol
- problemau bwyta megis gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niweidio neu lurgunio, gan arwain weithiau at ymgais i ladd eich hun
- dweud bod ganddynt gyfrinachau ni allant ddweud wrth unrhyw un arall amdanynt
- peidio â gallu cael ffrindiau (yn enwedig yn ystod y glasoed)
- ymddwyn mewn ffordd rhywiol tuag at oedolion

## Cam-drin emosiynol

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn emosiynol wael yn barhaus, gan achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall hyn gynnwys awgrymu i blant eu bod yn ddiwerth neu'n ddi-gariad, yn annigonol neu mai eu hunig werth yw eu bod yn diwallu anghenion person arall. Gall gynnwys gorfodi disgwyliadau ar y plentyn sy'n anaddas i oedran neu ddatblygiad y plentyn. Gall gynnwys gwneud i blentyn deimlo ofn neu fel ei fod mewn pryder, neu ecsbloetio plentyn.

**Dangosyddion o Gam-drin Emosiynol:**

- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troelli gwallt, siglo
- gwrthod chwarae
- ofni gwneud camgymeriadau
- anhwylderau lleferydd sydyn
- hunan-niweidio
- ofn o gysylltu â rhiant i drafod ei ymddygiad
- oedi datblygiadol o ran cynnydd emosiynol

**Gall newidiadau mewn ymddygiad, a all hefyd awgrymu esgeulustod, gynnwys:**

- eithafion goddefolrwydd neu ymosodedd
- gorymateb i gamgymeriadau
- hunan-ddirmyg ('Rwy'n dwp, yn hyll, yn ddi-werth' etc.')
- ymateb amhriodol i boen ('Rwy'n haeddu hyn')

## Esgeulustod

Esgeulustod yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall esgeulustod ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i'r fam yn camddefnyddio sylweddau. Ar ôl i blentyn gael ei eni, gall esgeulustod olygu rhiant neu ofalwr sy'n methu darparu digon o fwyd, dillad a lloches (gan gynnwys ei wahardd o'r cartref neu ei adael); methu i amddiffyn plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol; peidio â sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio rhoddwyr gofal annigonol); neu fethu i ddarparu mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.

**Dangosyddion esgeulustod:**

- chwant bwyd cyson, weithiau yn n dwyn bwyd plant eraill
- bob amser yn frwnt neu'n 'ddrewllyd'
- colli pwysau neu fod tan eu pwysau yn  rheolaidd
- dillad anaddas ar gyfer yr amodau.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad, a all hefyd awgrymu esgeulustod, gynnwys:**

- cwyno o fod yn flinedig drwy'r amser
- peidio â gofyn am gymorth meddygol a/neu fethu i fynychu apwyntiadau
- peidio â chael llawer o ffrindiau
- sôn am gael ei adael ar ei ben ei hun neu heb oruchwyliaeth.

## Cam-drin ariannol

**Yn cynnwys:**

- dwyn arian neu eiddo arall oddi wrthych;
- cael eich twyllo
- cael eich rhoi dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall
- rhywun yn cam-drin eich arian neu'ch eiddo
- peidio â diwallu anghenion gofal a chefnogaeth rhywun sy'n cael eu darparu drwy daliadau uniongyrchol
- cwynion bod eiddo personol ar goll

## Dd. Cam-drin ymddiriedaeth

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i holl staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda, neu at blant, yn annerbyniol. Yn benodol, o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed (er enghraifft, athro/athrawes, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol gyda phlentyn dan 18 oed lle mae'r person mewn sefyllfa o ymddiriedaeth i'r plentyn, hyd yn oed os yw'r berthynas yn gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y plentyn mewn addysg amser llawn ac mae'r person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n addysgu'r plentyn.

Yn y Gwasanaeth Addysg, mae'r holl berthnasoedd rhwng staff ac ysgolion yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Yn gyffredinol, gellir disgrifio perthynas o ymddiriedaeth fel un lle mae un person mewn swydd gyfrifol neu mae ganddo ddylanwad dros y llall, yn rhinwedd ei waith neu natur y gweithgaredd. Gall fod gan yr unigolyn sydd mewn swydd gyfrifol y pŵer i ganiatáu cynnydd neu fethiant. Gall y berthynas gael ei gwyrdroi gan ofn neu ffafr. Mae'n hanfodol i'r rhai mewn swyddi cyfrifol o'r fath ddeall y pŵer mae hyn yn ei roi iddynt dros y rhai maent yn gofalu amdanynt, a'r cyfrifoldeb y mae'n rhaid iddynt ei arfer o ganlyniad i hyn. Er bod perthynas o ymddiriedaeth yn bodoli, mae caniatáu i berthynas ddatblygu mewn ffordd a allai arwain at berthynas rywiol yn anghywir. Bydd perthynas rywiol yn y bôn yn anghyfartal mewn perthynas o ymddiriedaeth, ac mae felly'n annerbyniol. Mae hefyd yn annerbyniol oherwydd byddai'r berthynas o ymddiriedaeth 'broffesiynol' yn cael ei newid.

Mae Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000 yn nodi cyfres o alwedigaethau y mae'r deddfau Manteisio ar Blant a Phobl Ifanc yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un sy'n gweithio mewn sefydliad addysgol.

Prif ddiben y darpariaethau Manteisio ar Blant a Phobl Ifanc yw darparu amddiffyniad i bobl ifanc 16 ac 17 oed yr ystyrir eu bod yn agored iawn i sefyllfa lle gall pobl mewn swydd gyfrifol neu swydd ag awdurdod yn eu bywydau gam-fanteisio arnynt.

Yn amodol ar nifer o ddiffiniadau cyfyngedig, mae'n drosedd i berson mewn swydd gyfrifol gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd rhywiol â pherson dan 18 oed y mae ganddynt berthynas o ymddiriedaeth ag ef, heb ystyried yr oed cydsynio, hyd yn oed os yw sail eu perthynas yn gydsyniol.

Mae perthynas yn bodoli lle mae aelod o staff neu wirfoddolwr mewn swydd lle mae ganddo bŵer neu ddylanwad ar bobl ifanc 16 ac 17 oed yn rhinwedd y gwaith neu natur y gweithgaredd a wneir.

Mae'r egwyddorion yn berthnasol, beth bynnag yw'r tueddfryd rhywiol: nid yw perthnasoedd cyfunrywiol na gwahanrywiol yn dderbyniol mewn swydd o ymddiriedaeth. Maent yr un mor berthnasol i bawb, heb ystyried rhyw, hil, crefydd, tueddfryd rhywiol nac anabledd. Mae hwn yn faes lle mae'n bwysig iawn osgoi unrhyw ystrydebau rhywiol neu eraill. Yn ogystal, mae'n bwysig cydnabod bod menywod yn ogystal â dynion yn gallu camddefnyddio swydd gyfrifol.

Dylai staff sicrhau bod eu perthynas â phobl ifanc yn briodol i'w hoed a'u rhyw, gan ofalu nad yw eu hiaith a'u hymddygiad yn ysgogi sylwadau neu ddyfaliad. Mae angen doethineb o ran agweddau, ymarweddiad ac iaith, yn arbennig lle bo gweithwyr o’r naill ryw yn ymdrin â bechgyn a merched yn eu llencyndod.

## *E. Cysylltiadau Awdurdod Lleol*

**Dyma'ch cysylltiadau awdurdod lleol:**

Bethan Helen Jones, Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg
Adran Addysg,
Cyngor Gwynedd
07977504344 e-bost: bethanhelenjones@gwynedd.llyw.cymru